DARLITH FLYNYDDOL YR ARCHIF WLEIDYDDOL

GYMREIG

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

“CENEDL Y CYMRY

A’R DEYRNAS UNEDIG”

1 TACHWEDD, 2013

Tua dwy flynedd yn ôl, cefais i'm syndod, y gwahoddiad i draddodi'r ddarlith hon. Cytunais, - D.V., gan ofyn am oddefgarwch i ail ystyried y cais o dro i dro.

Prin yw'm profiad o ddarlithio. Enillais fy mara fel gwleidydd, a chyfreithiwr yn dadlau, y rhan fwyaf yn San Steffan a llysoedd de ddwyrain Lloegr. Ceisio marchogaeth dau geffyl r'un pryd!

Yn fuan ar ôl fy ethol yn Aelod Seneddol yn 1959, euthum i annerch Clwb Llafur Myfyrwyr Coleg Abertawe. Yn gwrando r'oedd hogyn ysgol o'r chweched dosbarth. Cefais gymaint o ddylanwad arno, fel ar ôl y cyfarfod aeth yr hogyn ffwrdd fel bollt i ymuno â'r Blaid Dorïaidd. Enw'r hogyn oedd Brian Griffiths a ddringodd i fod yn un o brif gynghorwyr Margaret Thatcher ac yng nghyflawnder yr amser fe'u dyrchafwyd yn Arglwydd Griffiths o Fforest-fach. Efallai mai er daioni na'm bod i wedi darlithio rhyw lawer. Taw pia hi!

Traddodais ddarlith yn 2006 yng Nghriccieth i goffau David Lloyd George, y Cymro a gyfrannodd fwyaf i wleidyddiaeth y Deyrnas, ar y testun "*Cyfraniad Cyfreithwyr o Gymru*". O oes y Stiwardiaid maent wedi gwneud cyfraniad mawr i fywyd y Deyrnas Unedig.[1] Yn fy nghyfnod i, gan anghofio'r presennol, gwnaed cyfraniad mawr gan y barnwr yr Arglwydd Morris o Borthygest - datganolwr a addurnodd llwyfan yr ymgyrchwyr dros ddatganoli ym Mangor yn 1978, - dyfynnir ei eiriau ar hunan amddiffyn bob wythnos yn ein llysoedd, a hefyd cofier cyfraniad y barnwr yr Arglwydd Edmund-Davies o Aberpennar. Mewn darlith i'r Cymmrodorion yng Nghaerdydd rhoddodd Edmund-Davies ddau gyfreithiwr o Gymru ar

[1] 26 Mehefin 2006. Trafodaethau'r Cymmrodorion, Cyfrol 13, 2007.

y brig [2] - yr honedig Arglwydd Atkin o Aberdyfi a gafodd gymaint o ddylanwad ar gyfraith 'Tort,' (cyfraith camwedd) gan roddi'r cyfrifoldeb ar seiliau Beiblaidd "*Pwy yw fy nghymydog?*" Achos y falwen yn y botel oedd dan sylw a phwy oedd a'r cyfrifoldeb cyfreithiol am y canlyniadau. R'oedd ei lais ym merw'r rhyfel mor gryf, er yn amhoblogaidd, mewn achos arall tros ryddid ac iawnderau'r unigolyn.

Ffefryn arall Edmund-Davies oedd y Barnwr David Jenkins o Hensol yng nghyfnod Cromwell. Pan ymddangosodd Jenkins gerbron Tŷ'r Cyffredin ar gyhuddiad o frad, gwrthododd fynd ar ei liniau, gan lefaru'r geiriau bythgofiadwy -

"*Af i'm marwolaeth â'r Beibl dan un fraich a Magna Carta dan y llall*". Gadawodd llysoedd Westminster i drefnu eisteddfodau ym Morgannwg.

Diddorol mae ŵyr i Atkin, Mr Youard a noddodd y ddarlith flynyddol i Gymdeithas Hanes y Cyfreithwyr yng Nghymru yn Abertawe. (2 Rhagfyr 2011) a draddodais ar y rhyfel yn Kosovo - "*The development by attorney generals of the doctrine of armed intervention by states, without Security Council Authorisation, to avert an overwhelming Humanitarian Catastrophe*".

[2] *Judicial quality*. Trafodaethau'r Cymmrodorion, 19983.22.27.

Mae llawer yn credu mai gweinyddu'r gyfraith yn unig oedd fy ngwaith fel y Twrnai Cyffredinol – ond weithiau mae galw am greu cyfraith – a digon unig ichi y pryd hynny credwch fi – heb lawer o ganllawiau i bwyso arnynt a chymeryd peth o'r straen.

Mae rhai yn dweud mai dyna'r cyfnod pan aeth fy ngwallt yn wyn!

Yn ôl un adroddiad mae crynodeb o gyngor y Twrne Cyffredinol presennol, Dominic Grieve Q.C. i'r cabinet ar ymyrraeth arfog yn Syria yn 2013 yn dilyn gair am air y cyngor a r'oes bryd hynny, a heblaw fy araith i'r llys rhyngwladol yn Yr Hague, fy llyfr yw'r unig ddogfen gyhoeddus ar y tir newydd a dorrwyd.[3]

Wrth sôn am y cyfnod hwn yn fy mywyd, tynnais ar fy mhrofiad mewn swydd a ddeliais yn gydamserol, sef Twrnai Cyffredinol Gogledd Iwerddon pan roddais dystiolaeth i un o bwyllgorau dethol y Cynulliad ar y cynigiad i greu system gyfreithiol annibynnol i Gymru, ond d'own yn ôl at hynny eto.

A ninnau'n dau erbyn hyn ar y meinciau cefn yn Nhŷ'r Arglwyddi, torrwyd tir newydd eto ar Fawrth 22, 2006, gan un o'm rhagflaenwyr, yr Arglwydd (Patrick) Mayhew, Q.C. a minnau wrth inni roddi tystiolaeth i Bwyllgor y Cyfansoddiad y Tŷ ar y cwestiwn a ddylsid mynd i ryfel heb benderfyniad arbennig o'r Senedd.

[3] 'Fifty Years in Politics and the Law' p.205-6

Mae'n dipyn o syndod y derbyniwyd heb gwestiwn tan hynny, hawl Llywodraeth i ddefnyddio'r frenhinfraint, y 'Royal Prerogative', i fynd i ryfel heb unrhyw sail arall, ac yn arbennig heb benderfyniad seneddol.

Ond dyna fel y bu tros y canrifoedd. O hyn ymlaen, heblaw mewn amgylchiadau arbennig, credaf y dilynir cyfarwyddyd[4] y Pwyllgor Dethol, rwy'n gobeithio, a mabwysiedir ymhellach y gŵys newydd a dorrwyd cyn y rhyfel yn Iraq ac y bydd penderfyniad seneddol cyn hogi a defnyddio cleddyfau.

R'oedd yn gryn bleser imi i Dŷ'r Cyffredin gael y cyfle i ddadlau a phleidleisio yn achos Syria yn Awst 2013.

Maddeuir imi am bwysleisio cyfraniad y cyfreithwyr yn Y Deyrnas Unedig. Rwy'n siŵr y gellid adrodd stori debyg am lawer galwedigaeth arall.

Mae'n syndod i mi, ac yn bleser bob amser wrth ystyried fod ein poblogaeth mor fach, pwy mor aml y daw enwau Cymry i'r brig, ac nid yn unig fel Llewod Prydain ac Iwerddon. Does dim eisiau mynd yn ôl i warant dedfrydu Siarl I i nodi'r rhai o dras Gymreig a'i harwyddodd, nac i ddatganiad annibyniaeth yr Unol Daleithiau.

Trown at y dyfodol yng Nghymru.

[4] Adroddiad Pwyllgor Dethol y Cyfansoddiad 2005-6

Y pwynt cyntaf yr wyf am wneud yw y bydd yn hanfodol bwysig yn y cyfnod ar ôl datganoli fod cymwysterau addysg a phroffesiynol yng Nghymru yn dderbyniol tros yr holl deyrnas ac yn ehangach hefyd. Mae cymaint o groesi'r ffin, ac nid yn unig fel cyn-Ganghellor Prifysgol rwy'n siarad ond fel cyn aelod o Dŷ'r Cyffredin am dros 40 mlynedd oedd yn rhoi blaenoriaeth i gyflogaeth, swyddi a diwydiant.

Pan euthum gyntaf i'r Sennedd, prin oedd y sefydliadau Cymreig. R'oedd, wrth gwrs, un symudiad gwleidyddol pwysig, ond gydag ychydig o ddylanwad ymarferol y pryd hynny - yn dadlau dros annibyniaeth i Gymru, er nad oedd yn glir bob amser beth oedd hynny yn ei olygu.

Rwy'n nodi hyn i wneud yn hollol glir, mai ar drywydd hollol wahanol y cychwynnodd Gwilym Prys Davies, gydag anogaeth un o'r arweinyddion uchaf ei barch yn y Blaid Lafur, ac ehangach na hyn, sef Jim Griffiths, i geisio rhoddi cig ar esgyrn y syniad o ryw fath o gyfundrefn ddemocrataidd genedlaethol i Gymru.

Ynghyd â Chymro arall, Aneurin Bevan, y ddau a ddatblygodd y wladwriaeth les, os nad ei sefydlu, r'oedd gan Jim y weledigaeth a'r awdurdod, ond r'oedd angen gweithio ar y weledigaeth. Y cam cyntaf oedd perswadio'r Blaid Lafur i sefydlu Ysgrifennydd i Gymru. Gwireddwyd y frwydr hon yn ei gyfnod (1964) ar ôl tipyn o chwysu, nid am y tro olaf yn y Blaid Lafur, ac r'oedd y camau gweinyddol a gymerodd o'r diwrnod cyntaf y llanwodd y swydd yn allweddol i lwybr y dyfodol. D'oes dim digon o bwysau wedi ei roddi i'r camau

hyn. Braint oedd bod yn Is-weinidog mewn llywodraeth Lafur a gymerodd y cam pwysig hwn o gydnabod Cymru fel cenedl, a throi'r cloc yn ôl ar ôl canrifoedd o gamwedd ers y Tuduriaid a chynt.

Aeth 14 mlynedd heibio cyn y gellid rhoddi cynigion manwl am gorff democrataidd i'r genedl.

Pan gefais alwad, i'm syndod - a syndod y genedl - tuag amser cinio y Dydd Mawrth yr wythnos ar ôl yr etholiad yn 1974, i rif 10 Downing Street i'm hapwyntio yn Ysgrifennydd Cymru, mae geiriau Harod Wilson, y Prif Weinidog, mor glir yn fy meddwl heddiw ag yr oedd bryd hynny:-

"Dewch a'ch syniadau am ddatganoli ger ein bron - mi fydd gennyf ddiddordeb mawr ynddynt". Rhoddodd ryddid imi. R'oedd yn her.

R'oedd y cynigiadau a gytunwyd gan y cabinet maes o law, yn fy marn i, y mwyaf cyrhaeddgar posib y gallen ni gynnig bryd hynny. Trodd arweiniad Wilson farn y lleiafrif yn benderfyniad y cabinet. I'm siom enfawr, gwrthodwyd ein cynigion o Fôn i Gasnewydd, ac fel y dywedais ar y newyddion naw o'r gloch y noson ddychrynllyd honno - "Pan welwch eliffant ar stepen eich drws, ry'ch chi'n gwybod ei fod yno."

Roedd disgrifiad John Roberts Williams o ymddygiad ein cenedl ar y foment fawr honno yn ein hanes yn llawer mwy lliwgar!

R'oeddem o flaen ein hamser.

Fy ail bwynt: i ble yr awn yn awr?

A gaf i sôn yn gyntaf am ariannu? Dyna destun mae pob Cardi yn rhoddi blaenoriaeth iddo!

Mae anniddigrwydd yn Yr Alban a Chymru ynglŷn â fformiwla Barnett, oherwydd ni welir hi yn fformiwla deg. Gan fy mod i yno fel Ysgrifennydd Cymru, ar y diwrnod cyntaf i ddadlau efo Joel Barnett, y Prif Ysgrifennydd, am fy nghyfran o arian newydd o'r Trysorlys, gallaf eich sicrhau na feddyliodd neb y byddai hon yn parhau tros y blynyddoedd oherwydd bod pob llywodraeth yn rhy styfnig i'w newid. A neb yn sôn amdani fel fformiwla!

Yn y gwanwyn (Mawrth 2013) yn dilyn o Raglen y Glymblaid, cyhoeddodd Comisiwn dan gadeiryddiaeth McKay, cyn Glerc Tŷ'r Cyffredin ac yn arbenigwr seneddol, ei adroddiad ar 'Ganlyniadau Datganoli i Dŷ'r Cyffredin'.

Gan ddibynnu ar 'vox pops' efallai yn ormod, dywedwyd fod anniddigrwydd yn Lloegr hefyd ynglŷn â thegwch y gwariant yn y gwledydd a ddatganolwyd, yn enwedig yn yr Alban.

Ceisio rhoddi ateb yr oeddent i gwestiwn West Lothian, a ofynnwyd dro ar ôl tro gan fy hen gyfaill a'm gwrthwynebydd mewn dadleuon o ddyddiau Caergrawnt - Tam Dalyell, A.S. West Lothian wedi hynny. Minnau yn cynrychioli Llais y Clwb Llafur mewn dadleuon yn yr Undeb yno, a Tam dros y Torïaid! A heb weld y golau bryd hynny.

Beth yw'n ateb i'r ffaith weithiau y gall pleidleisiau aelodau Tŷ'r Cyffredin o'r Alban a Chymru foddi mwyafrif aelodau seneddol Lloegr, a hynny ar faterion fel iechyd yn Lloegr na sy'n berthnasol i ddyletswyddau aelodau seneddol Yr Alban a Chymru yn Westminster. Ddim yn aml, rhaid dweud.

Pan gychwynnais feddwl, bron ddwy flynedd yn ôl am ddeunydd y ddarlith hon, roedd gennyf dipyn o gynhesrwydd at sefydlu system ffederal i'r Deyrnas Unedig. Ond rhaid oedd wynebu'r ffaith mai dim ond 17% o holl boblogaeth y deyrnas sy'n byw yn Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon gyda'i gilydd. Byddai cryfder a dylanwad senedd Lloegr yn gallu tanseilio senedd Prydain. Ond yn fwy pwysig na hyn does dim dyhead o gwbl gan fwyafrif mewn unrhyw ran o Loegr am seneddau rhanbarthol. Mae Comisiwn McKay wedi ceisio dyfeisio system o bleidleisio yn Nhŷ'r Cyffredin sy'n gyfyngedig i aelodau Lloegr yn unig, gyda'r gair olaf i'r holl aelodau - ar faterion fel iechyd pan maent yn berthnasol i Loegr yn unig. Y bwriad yw ceisio osgoi creu dau fath o aelodau seneddol, rhyw fath o system 'in, out and in again'. R'oeddwn yn sicr pan ysgrifennais y ddarlith hon gyntaf y byddai cryn dipyn o gnoi cil cyn y ceid boddhad ar unrhyw system newydd.

Yn yr Haf, datgelwyd fod Oliver Letwin, y Gweinidog Cabinet, yn gweithio ar ateb a fyddai yn cynnwys cynnig i greu cam ychwanegol yn Nhŷ'r Cyffredin - y 'fourth reading' i drafod mesurau, lle y cyfyngid pleidleisio i aelodau Lloegr yn unig ar y materion hyn.

Mae'n debyg y byddai cynnig o'r fath yn mynd ymhellach na McKay, gan yn groes i McKay, rhoddid veto i'r aelodau o Loegr.

Dywed Vernon Bogdanor, yr awdurdod ar y cyfansoddiad, y byddai hyn yn dinistrio'r egwyddor o gyfrifoldeb cabinet, a'r posibilrwydd ar un llaw o weinyddiaeth Lafur ar faterion tramor, amddiffyn, a pholisi economeg, ond gweinyddiaeth Dorïaidd yn Lloegr dros iechyd, addysg a chartrefu.

Y gwir amdnai, er i Enoch Powell fedyddio'r broblem fel y 'West Lothian Question', yn y gwraidd y 'Cwestiwn Saesneg' yw.

R'wy'n rhagdybio tipyn mwy na cnoi cil, os y deuir â mesur tebyg i'r uchod o flaen y Senedd.

Neges bwysig arall McKay yw eu barn nad yw'r broses seneddol yn Westminster wedi newid fawr er dyfodiad datganoli. Gwnant un cynnig diddorol iawn, sef sefydlu pwyllgor newydd yn Nhŷ'r Cyffredin (anghofiwyd Tŷ'r Arglwyddi) i ystyried effaith gyfreithiol a pholisïau

traws-ffinoedd y gwahanol wledydd yn y deyrnas, i'w alw y 'Pwyllgor Datganoli'. Byddai hyn yn gam da.

Ar ôl datganoli bu tipyn o wahaniaethau yn natblygiad polisïau yn y gwahanol wledydd. Roedd hyn i'w ddisgwyl, ac edrychais ymlaen at hyn yn fawr.

Mae cryn dipyn o astudiaethau wedi eu gwneud i ddehongli'r gwahaniaethau hyd yn hyn, e.e. gan Birrell, Keating, Trench, Paul Greer ac astudiaethau addysg uwch prifysgolion y deyrnas.

Dyma un o gryfderau datganoli, bod yn fwy atebol i ddyheadau y gwahanol wledydd, heb gael eu cyfyngu gan lyfeitheiriau Whitehall, a'r posibilrwydd o arbrofi ar bolisïau newydd gan roddi'r cyfle weithiau i un i ddysgu oddiwrth y llall - o fagiau plastic i fyny!

'Labordau Democratiaeth' yw un disgrifiad o system ffederal yr Unol Daleithiau, a disgrifiad da ydyw, a gobeithiaf y byddai'r arbrofi ar dir ehangach na mympwy un neu ddau a'r gallu i berswadio eu cyd-aelodau.

Pan oeddwn i yn Ysgrifennydd Cymru am ddilyn llwybr gwahanol i lwybr Whitehall, roedd rhaid ymladd dwy frwydr, un o fewn y swyddfa Gymreig, fel y ddadl am y pedwerydd sianel, ac ar ôl setlo hon, dadl neu frwydr yn Whitehall.

Ym myd iechyd, addysg ysgolion, grantiau i fyfyrwyr, gofal am yr henoed, tâl am feddygaeth, er enghraifft, dilynwyd cyrsiau gwahanol gan y gwledydd.

Barn Birrell yw mai dyma'r rhan wanaf o'r datblygiadau. R'wyf i yn llawer mwy gobeithiol. A oes terfynau ar wahaniaethau tybed? Problem eiddigedd efallai am ryw wariant arbennig? A ddylai seneddwyr doeth ystyried hyn yn y dyfodol? Dim ond gofyn y cwestiwn.

Fy nhrydydd pwynt:-

Os am wneud gwahaniaeth rhaid magu unedau cryf i greu polisïau o fewn y Llywodraethau sydd wedi datganoli ac o fewn y pleidiau, ac yn wir yn llawer yn ehangach na hwynt. Ni allaf wasgu gormod ar yr angen i bob corff cyhoeddus i weithio ar bolisïau ac ymateb i bolisïau y Llywodraeth a'r pleidiau.

Mae Comisiwn Silk [5] wedi gwneud cynigion pwysig ar godi trethu ac ar fenthygiadau gan Y Cynulliad.

Yn anffodus nid oedd fformiwla Barnett o fewn eu tasg.

[5] Empowerment and responsibility – financial powers to strengthen Wales. Nov.2012

Greddf y Trysorlys yw penderfynu unrhyw wariant ar beth ddigwyddodd yn y gorffennol, a llawer rhy anaml ddim ar yr angen. Rhaid dod yn ôl at hyn, gan obeithio mewn cyfnod o gymharol lawnder.

D'oes gennyf ddim gwrthwynebiad mewn egwyddor i drosglwyddo yr hawl i godi peth o'r trethu, ond rwy'n amheus pa mor ymarferol neu dderbyniol fydd hyn. Yn arbennig os mai dim ond newid treth Westminster i dreth Gymreig a ddigwyddir. D'oes neb yn hoffi trethu newydd. Rwy'n credu nad yw'r Alban wedi defnyddio ei phwerau.

Rwy'n cynhesu tipyn yn fwy at ddatganoli pwerau i fenthyca arian a'i ddefnyddio er mwyn gwneud gwariant ar fuddsoddiad yn fwy llyfn. Ond gan fod statws ariannol y Deyrnas Unedig ac effeithiau rhyngwladol, derbyniodd Silk angen pennu benthyciadau gan y Trysorlys.

Dôf ymlaen yn awr i ail dasg Silk ac mae Llywodraeth Cymru[6] wedi gwneud ymdrech deg yn ei thystiolaeth i'r Comisiwn i'r rhan hon. Yn dod o'r stabl yr wyf i yn dod ohono - datblygu gam wrth gam, rwy'n derbyn ac yn cofleidio, ac mae hyn yn gam pwysig imi - beth a gredaf yw prif gynigiad y Llywodraeth.

Dyma'r pedwerydd pwynt, sef yr angen am ddeddf arall i Lywodraeth Cymru a fyddai yn torri tir hollol newydd i Gymru, sef symud o'r system statudol bresennol o restri'r hawliau

[6] O enw'i gyfaill?

sydd gan Lywodraeth Cymru i ddeddfu yn ôl deddf 2006, i system o nodi'r hawl i ddeddfu ar bob testun oddieithr y rhai a gedwir gan Westminster - y 'reserved system'.

Byddai hyn yn cyfateb, fwy neu lai, i'r hyn sy'n bodoli yn Yr Alban. Yn fras yn dilyn y materion a restrir yn y pumed 'Schedule' yn Neddf yr Alban 1998 - materion tramor ac amddiffyn, prif faterion y Swyddfa Gartref fel diogelwch a mewnfudo, nawdd cymdeithasol, ynni, hawliau cyflogaeth, iechyd a diogelwch, diogelwch ac iechyd cymdeithasol, elusennau a chyfreithiau tir. I'm syndod mawr gwrthodwyd darlledu.

Gwna'r Llywodraeth un pwynt pwysig arall, sef y dylai fod yn bosibl i newid ffiniau cyfrifoldeb yn y dyfodol heb gyfraith gynradd (primary legislation), ac yn arbennig fod unrhyw benderfyniad ar drosglwyddo cyfrifoldebau yn mynd law yn llaw ac ariannu.

Â'r llywodraeth ymlaen i fanylu ar y pwerau y ceisiant eu cael. Yn fy farn i mae 'rheoli' Cymru yn waith amser llawn, a byddai ymladd am destun ar ôl testun, fel y gorfu imi wneud pan yn Ysgrifennydd Cymru yn gamddefnydd o amser a swydd gweinidogion a'r Llywodraeth. Credaf er hynny fod cryn dipyn o waith pellach i'w wneud ar y rhan yma o'r dystiolaeth ar ddatganoli. Rhai cynigion yn ddi-sail ac eraill yn afresymol - er enghraifft, cyfrifoldeb am ddeddfu yn genedlaethol am gyflymder ceir modur ar ôl croesi'r Hafren, a'r rheolai yfed i yrrwr yn arbennig. Cefais fy synnu gan ddiniweidrwydd rhai o'r cynigion.

Fy siom fawr, ers pan roddais ddarlith y Canghellor pan ym sefydlwyd yn Ganghellor Prifysgol Morgannwg yn 2001[7], fod Cymru a'r Cymry wedi troi eu cefnau rhag cymeryd awdurdod dros ddarlledu yng Nghymru. Bu distawrwydd llethol pan y soniais am y testun bryd hynny. Daeth peth cefnogaeth llawer iawn yn ddiweddarach.

Tros y blynyddoedd, gwell gan y darlledwyr yng Nghaerdydd gael eu goruchwylio o Lundain bell na Chaerdydd agos, a'r Llywodraeth yng Nghaerdydd yn ofnu ymafael â'r broblem o sicrhau iawndal am y gost a fyddai'n dilyn trosglwyddo. Petai ychydig o ddewrder wedi ei ddangos mewn cyfnod o lawnder, ni fyddai Westminster wedi gallu torri mor galed fel y gwnaethpwyd ar gyllid S4C – a hyn yn hollol groes i'r gyfraith ar y pryd. Yn fy marn i, ni all y Cynulliad wneud eu dyletswyddau yn llawn dros yr iaith Gymraeg [dan y Government of Wales Act 2006, section 108. Schedule 7 (20)] heb gyfrifoldeb dros un o'r offerynnau allweddol sy'n noddi a rhoddi cymorth i'r iaith sef darlledu yng Nghymru. Yn lle hyn nid yw cynnig y Llywodraeth am lais yn yr apwyntiadau i'r BBC a S4C yn fawr o bwys a dim ond yn gosmetic. Fawr mwy na'r pwerau anffurfiol oedd gennyf fi fel Ysgrifennydd Cymru.

Rwy'n croesawu yn fawr y cynnig am bwerau dros yr heddlu, gan fod gymaint o gydweithrediad rhyngddynt â'r gwasanaethau cymdeithasol a'r awdurdodau lleol, ac yn bresennol mae'r heddlu yn cael peth o'i harian oddi wrth y Cynulliad, a hefyd cyfrifoldeb seneddol am gynhyrchu ynnu.

[7] 2001 Lord Merlyn Rees Lecture – The Development of Welsh Political Institutions over fifty years: 6 December 2001, University of Glamorgan

Sgwarnog a godwyd gan Brif Weinidog Cymru oedd cychwyn ymchwiliad i'r cwestiwn a oedd achos i sefydlu awdurdod cyfreithiol annibynnol neu ar wahân i Gymru. Rhoddais dystiolaeth i bwyllgor dethol y Cynulliad ar y 25ain Mehefin 2012 ac amgaeais femorandwm oddi wrth Brif Ustus Gogledd Iwerddon pan oeddwn i yn Dwrnai Cyffredinol yno (Yr Arglwydd Carswell). Rhestrodd y sefydliadau anhepgorol a fyddai raid eu sefydlu fel rhan o'r 'Annibyniaeth'.[8]

Yn barod mae camau pwysig wedi eu cymryd gan y prif farnwyr i sicrhau eisteddiadau o'r llysoedd uwch a'r llysoedd arbennig yng Nghymru. A chroesawaf yn arbennig apwyntiad y Cymro o Gwmgiedd, Syr John Thomas yn Brif Arglwydd Farnwr a wnaeth gymaint yn y cyswllt hwn yn barod. Fy marn i oedd gwell ar hyn o bryd cadarnhau a datblygu y broses hon nad sydd heb ei phroblemau. Fel y tyfai'r ddeddfwriaeth o Gaerdydd byddai'r achos i sefydliadau newydd yn gryfach, a dylid cadw meddwl agored am hyn. R'oedd rhagor o gamau ymarferol i'w cymryd i gynyddu'r achos am eisteddiadau gan y broffesiwn ei hun. R'oedd y pwyllgor yn cytuno mwy neu lai â minnau.

Amheuais mai enghraifft o ddatganoli llywodraeth oedd hyn o gwbl, ac yn fy nogfen gosodais fod fy mlaenoriaethau i ddatganoli pellach yn wahanol. Yn eu ddatganiadau wedyn mae'r Prif Weinidog wedi oeri am y syniad ar hyn o bryd.

Y newid mawr rhwng y ddeddf a gynigais i i Gymru yn 1979 a'r mesur yn 1998 yw'r system o ethol cyfran o'r aelodau mewn modd gwahanol. Nid oedd dim newid yn rhif yr aelodau

[8] Report Constitutional and Legislative Affairs Committee

rhwng y ddwy ddeddf. Daeth Pwyllgor Richard yn 2004 i'r casgliad y dylid cynyddu aelodaeth y Cynulliad o 60 i 80.

Gwnaed gwaith manwl yn ei hystyriaeth o faich aelodau o'r Cynulliad i archwilio a chadw llygad ar y Llywodaeth – calon pob system ddemocrataidd.

Fy mhumed pwynt yw fod mod wedi'm perswadio yn awr, yn dilyn rhoddi'r hawl i ddeddfu i'r Cynulliad, fod yr achos am gynnydd yn rhif yr aelodau wedi cryfhau, ac rwy'n ei dderbyn.

Mi fydd tipyn o waith i berswadio'r cyhoedd am hyn. Yn anffodus, nid yw cynrychiolwyr seneddol yn rhy boblogaidd! Stori arall yw cynyddu eu rhif. Nid yw democratiaeth heb ei gost. Mwyaf o aelodau, mwyaf y gost. Bydd y cyhoedd yn disgwyl rhyw aberth i gwrdd â'r costau.

Mae gennyf dri cynnig yn y cyswllt hwn – dim un yn rhy boblogaidd!

Lleihad yn rhif gweinidogion y Cynulliad. Amser adroddiad Richard r'oedd 9 aelod o'r cabinet a 3 dirprwy – 12 gweinidog i gyd[9]. Yn awr mae 11 gweinidog yn y cabinet a 3 dirprwy – 14 gweinidog i gyd. Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn awr yn aelod o'r cabinet. Wrth gwrs, mae'r gwaith yn wahanol i'm cyfnod i fel Ysgrifennydd Cymru. Mae sennedd i'w wynebu bob wythnos ac yn y blaen.

[9] Report of the Richard Commission – Spring 2004

Ond teg yw'ch atgoffa mai dim ond dau Is-weinidog oedd gennyf i'm cynorthwyo fel Ysgrifennydd Gwladol. Fel rhan o'm swydd r'oedd gennyf gyfrifoldebau cyffredinol i'r Cabinet a'i broblemau. Cofiaf 5 neu 6 cyfarfod amser crisis yr I.M.F. yn 1977/8 mewn rhyw ddau neu dri diwrnod! R'oedd galw o dro i dro imi neu'm is-weinidogion, i bwyllgorau gweinidogion yn Brussels, ac un tro, ar gais y Prif Weinidog, i gymeryd lle ein gweinidog penodedig a oedd yn brysur ar ddyletswyddau eraill yma, i gymeryd y gadair yno hyd oriau mân y bore. Roedd fy nghyfrifoldeb yng Nghymru am gyflogaeth a diwydiant yn cyfiawnhau fy mhresenoldeb. Roedd hefyd weithiau y gorchwyl o gynrychioli'r deyrnas mewn trafodaethau rhyngwladol eraill, a phan oedd Cyngor y Gweinidogion yn Brussels yn trafod amaethyddiaeth, ceisiais i, neu un o'm is-weinidogion fod yno rhan amlaf, gan fod amaethyddiaeth mor bwysig i Gymru, a chymaint o awdurdod yn Brussels.

Nid cost y Gweinidog yn unig sydd raid inni ystyried, ond ei staff a'i swyddfa hefyd, a'r cyfan fel "Cyfraith Parkinson", yn dueddol o dyfu.

Mae gennyf ryw syniad y byddai'r genedl yn croesawu gostyngiad yn rhif y gweinidogion, ac yn dilyn byddent yn cael eu rhyddhau i gynyddu rhif yr aelodau i oruchwylio y Llywodraeth.

Gyda'r cynnydd mewn deddfu, faint o le sydd i gynyddu'r oriau yr eisteddiadau yng Nghaerdydd? Mae beiriniadaeth yn ddiweddar am y lleihad yn eisteddiadau y Sennedd yn Westminster, a sŵn "ym mrig y morwydd" yng Nghaerdydd hefyd.

Yn ôl Richard, a mae peth amser ers hyn, penderfynodd y Cynulliad, yn groes i ddymuniad y gwrthbleidiau, i leihad yn eisteddiadau ei pwyllgorau. Mae swydd y pwyllgorau wedi newid ers Richard a rhaid ystyried hyn. Dadleuodd Richard fod Sennedd Yr Alban yn eistedd 156 diwrnod y flwyddyn bryd hynny a Chaerdydd ddim ond 135. Y llynedd eisteddodd y Cynulliad am 127 diwrnod. Bydd cynnydd yn eisteddiadau y cynulliad o 2012/13 i 2013/14 o 33 wythnos i 34 wythnos, ac felly nifer y diwrnodau, oherwydd y cynnydd yn eu rhaglen o ddeddfu a pholisi. Os ydym o ddifrif am berswadio y cyhoedd am gynnydd yn rhif yr aelodau byddai'n ddoeth i Westminster a Chaerdydd dalu sylw i ddisgwyliadau yr etholwyr. Beth yw'r quid pro quo?

Têg yw cydnabod ein prif weinidogion a'n llywodraethau i wneud datganoli yn dderbyniol fel bod dim cwestiwn o droi yn ôl.

Y pumed olwyn yn y goets seneddol ydyw bodolaeth Ysgrifennydd Gwladol yn yr Alban a Chymru. Mae dau is-weinidog yn Swyddfa Cymru, un yn Nhŷ'r Cyffredin ac un newydd sbon am y tro cyntaf erioed yn Nhŷ'r Arglwyddi. Beth yn y byd y maent yn ei wneud o ddydd i ddydd, Duw a ŵyr! Does fawr o ddyletswyddau ganddynt ar ôl dyfodiad datganoli, a llai fyth ar ôl trosglwyddo deddfu i'r Cynulliad.

Amhosibl o'm profiad i o ddal y swydd dros bum mlynedd yw cyfiawnhau y swyddi heddiw.

Cafodd Comisiwn McKay dystiolaeth fod angen peirianwaith Seneddol rhwng y Seneddau yn Yr Alban, Cymru a Westminster ar adeg trafod cydsynio i ddeddfu - dywedir –

> "They should be communicated one Parliament to another . . . and not something trasmitted by the Minister from the Front Bench" (para.266).

Cyfeiriais yn barod at y cynnig i sefydlu Pwyllgor Datganoli newydd yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae angen newid cyfansoddiadol yn y cyswllt hwn hefyd.

Fy chweched pwynt yw'm credo mai dyma lwybr y dyfodol – sef trafodaethau uniongyrchol rhwng Caerdydd a Westminster. Prif Weinidog Cymru yn trafod yr hyn sy'n berthnasol â'i gyfrifoldebau yn unionsyth â'r gweinidogion a'r adrannau yn Westminster yn hytrach na'r Ysgrifennydd Gwladol yn ceisio defnyddio pa ddylanwad sydd ganddo â'r Trysorlys ac eraill – yr un patrwm â pherthynas Senedd wrth Senedd y mae McKay yn gynnig.

Ein problem fwyaf heddiw yw sicrhau fod Cymru yn cael y dylanwad mwyaf ar beth bynnag a ddatblygir ym mherthynas Y Deyrnas Unedig a 'Ewrop', a mae rhan i'w chwarae gan ein haelodau seneddol ac hefyd y Llywodraeth a'r aelodau yng Nghaerdydd.

Y fendith fawr yn fy mywyd i, ers yr oeddwn yn Weinidog Amddiffyn pan anfonwyd y milwyr i Ogledd Iwerddon yn Awst 1969, yw'r agosrwydd gweithredol a ddatblygwyd rhwng y gwahanol garfannau yng Ngogledd Iwerddon a hefyd mewn modd gwahanol, y closio a'r

cydweithio rhwng Gweriniaeth Iwerddon â'r Deyrnas Unedig. Pan oeddwn yn Dwrnai Cyffredinol adeiladais gydweithrediad agos a phersonol gyda'r Twrnai Cyffredinol yn Nulyn, a gwelwyd cryfhau o wythnos i wythnos y berthynas yn fy nghyfnod.

Yn fy llyfr[10], gwelir mewn atodiad 9 (Mehefin 19, 1968) fy memorandwm at Harold Wilson ar broblemau cyfansoddiadol Cymru, lle mae cyfeiriad tua'r diwedd am y gobaith pan y bydd hen ddoluriau yn colli peth o'u creithiau, y dylid rhoddi anogaeth i'r Iwerddon i ddod yn agosach atom. Yng Ngogledd Iwerddon, ac yn ddiweddarach yn ystod crisis y banciau yn yr Iwerddon, gwelwyd ffrwyth y berthynas yn ymarferol.

Wrth edrych yn ôl, rwy'n falch fod cymaint wedi digwydd inni yn gyfansoddiadol yn yr hanner can mlynedd diwethaf. Mae llawer yn honni bod yn Dad i lwyddiant, ond amddifad bob amser yw methiant. Faint o weledigaeth oedd gennyf – mater i eraill i farnu yw hyn. Os nad oes gan wleidydd weledigaeth pan yn cychwyn ac yn datblygu ei yrfa, nid yw'r yrfa yn werth ei dilyn. Mi g'es i'r cyfle i geisio creu, a'r iechyd a'r stamina i barhau, a does genny' i ddim ond diolch.

[10] 'Fifty Years in Politics and the Law'